**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
26 Ionawr 2024

**Rhan 1**

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 (“Rheoliadau 2024”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, a
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

1.2 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio'r rheoliadau presennol ar gymorth i fyfyrwyr er mwyn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a doethurol ôl-raddedig, yn unol â'r polisi sefydledig.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

**3. Cefndir deddfwriaethol**

3.1 Gwneir Rheoliadau 2024 o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(b) ac (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998').

3.2 Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

3.3 Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 22(1)(a) a 22(2)(b) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i’r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru, gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (p. 8). Darparodd adran 44 o’r Ddeddf honno hefyd fod y swyddogaeth yn adran 22(2)(c) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i gael ei harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â’r Ysgrifennydd Gwladol, i’r graddau y mae’n ymwneud â gwneud darpariaeth o ran Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, i’r graddau y mae’n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i

Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.4 Mae Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu'r sail ar gyfer system y cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, a rhai myfyrwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU.

4.2 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio'r rheoliadau presennol ar gymorth i fyfyrwyr er mwyn addasu symiau'r cymorth i fyfyrwyr israddedig a doethurol ôl-raddedig, yn unol â'r polisi sefydledig, fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.12.

<u>Cymorth cynhaliaeth</u>

4.3 Ar gyfer myfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2018, cynyddu swm y cymorth cynhaliaeth yn unol â'r gwerth a ragwelir ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, sef y mwyafrif o fyfyrwyr israddedig presennol.

4.4 Bydd swm y cymorth cynhaliaeth yn cynyddu 3.7% rhwng blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25. Mae'r elfen gymorth a fenthycir yn cael ei chynyddu yn unol â hynny; mae'r elfen grant yn sefydlog.

4.5 Ar gyfer myfyrwyr amser llawn a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2012 a chyn 1 Awst 2018, cynyddu swm y benthyciad cynhaliaeth yn ôl mesur o RPIX.

4.6 Bydd swm y benthyciad cynhaliaeth yn cynyddu 0.9% rhwng blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25 yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir, fel y'i mesurir gan RPIX, yn y flwyddyn hyd at Ch1 2025, ac a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth 2023. Mae'r cymorth yn gymysgedd o grantiau a benthyciadau ac mae'n ddibynnol ar incwm yr aelwyd.

<u>Grantiau cymorth eraill</u>

4.7 Ar gyfer pob myfyriwr cymwys, cynyddu symiau'r Grantiau ar gyfer Dibynyddion, gan gynnwys y Grant Gofal Plant, yn ôl RPIX. Bydd y grantiau hyn yn cynyddu 0.9% rhwng blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25 yn unol â'r

amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir, fel y'i mesurir gan RPIX, yn y flwyddyn hyd at Ch1 2025.

4.8 Ar gyfer pob myfyriwr cymwys, cynyddu swm y Grant Dysgwyr Anabl yn ôl RPIX. Bydd y grant hwn yn cynyddu 0.9% rhwng blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25, yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir, fel y'i mesurir gan RPIX, yn y flwyddyn hyd at Ch1 2025.

Cymorth ffioedd

4.9 Ar gyfer myfyrwyr amser llawn a ddechreuodd eu cyrsiau israddedig ar neu ar ôl 1 Awst 2012 a chyn 1 Awst 2018, lleihau swm y grant ffioedd a chynyddu swm y benthyciad ffioedd yn ôl RPIX. Nid yw cyfanswm y cymorth ffioedd yn newid, ond bydd swm y grant yn lleihau a'r benthyciad yn cynyddu 0.9%, yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir, fel y'i mesurir gan RPIX, yn y flwyddyn hyd at Ch1 2025.

Myfyrwyr ôl-raddedig – Doethurol

4.10 Ar gyfer myfyrwyr doethurol sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2024, cynyddu swm y cymorth yn ôl RPIX. Bydd y benthyciad cynhaliaeth yn cynyddu 0.9%, yn unol â'r amcangyfrifon o chwyddiant a ragwelir, fel y'i mesurir gan RPIX, yn y flwyddyn hyd at Ch1 2025.

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Ni ystyriwyd bod angen ymgynghoriad gan fod Rheoliadau 2024 yn cael eu rhoi ar waith i gynnal y polisi sefydledig ar gyfer addasu'n flynyddol y cymorth a roddir i fyfyrwyr israddedig a doethurol ôl-raddedig.

## Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Yn unol â'r polisi a amlinellir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth, ni chynhyrchwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r rhesymau dros hyn wedi'u cynnwys yn yr eithriadau a nodir yn y cod:

- *Lle bo’r is-ddeddfwriaeth, yn syml, yn cynyddu ffi statudol, cyfradd treth, taliad, grant neu lwfans yn unol â fformiwla a bennwyd ymlaen llaw.*

Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio cyfraddau cymorth myfyrwyr israddedig a doethurol ôl-raddedig. Mae newidiadau i gyfraddau cymorth myfyrwyr yn seiliedig ar bolisi hirsefydlog. Mae cyfraddau cymorth myfyrwyr yn cael eu haddasu yn

unol â'r gwerth a ragwelir ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r gyfradd chwyddiant a ragwelir. Y Comisiwn Cyflogau Isel sy'n pennu cyfradd y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n cynhyrchu'r rhagolygon ar gyfer RPIX.